Datganiad Bioamrywiaeth Prifysgol Caerdydd

Mae Prifysgol Caerdydd yn arwain ymchwil ym maes Bioamrywiaeth. Mae Polisi Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol/ Datganiad Gweledigaeth Cynaliadwyedd y Brifysgol yn cefnogi ymrwymiad y sefydliad i wella ei berfformiad amgylcheddol. Yn bennaf, mae campysau Prifysgol Caerdydd wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas, er hynny mae'r Brifysgol yn ymrwymo i warchod Bioamrywiaeth lle bo hynny'n bosibl ar ein safleoedd boed hynny yn y ddinas neu'r rheiny gyda mwy o dir fel Caeau Chwaraeon Prifysgol Caerdydd (Llanrhymni) a Neuadd Breswyl y Brifysgol.

Rheolir bioamrywiaeth gyda'r amcanion canlynol mewn cof:

I gydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth yn y DU yn ymwneud â bioamrywiaeth

I ddatblygu cysylltiadau rhwng partïon priodol sydd â diddordeb yn y Brifysgol

I weithio gyda'r boblogaeth myfyrwyr o ran canfod meysydd i'w gwarchod

I weithio gyda chontractwyr tirwedd i ddatblygu arferion rheoli tir sy'n gwarchod a gwella bioamrywiaeth

I gynnwys staff, myfyrwyr a'r gymuned leol mewn materion bioamrywiaeth drwy raglenni gwirfoddoli a rhaglenni addysgol

I warchod cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli ar draws gampysau Prifysgol Caerdydd

I greu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sydd yn cynnwys argymhellion cyfoes o ran camau gweithredu ar y campws

I ystyried effeithiau ecolegol bob amser a chyfleoedd am wella elfen ecolegol unrhyw ddyluniadau adeiladau newydd neu weithgarwch adeiladu

Bydd Prifysgol Caerdydd yn ystyried bioamrywiaeth mewn cysylltiad â: Yr Amgylchedd Adeiledig; Plannu Ffurfiol; Glaswelltir; Llwyni a Gwrychoedd; Coed; a Thir Diffaith.